**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
**Dydd Mercher 12 Chwefror 2020**

**Papur tystiolaeth**

Hoffwn gyfeirio'r Pwyllgor at fy mhapurau tystiolaeth dyddiedig 9 Ionawr (Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau)

http://senedd.assembly.wales/documents/s96906/EIS5-01-20P5%20Evidence%20from%20Minister%20for%20Economy%20and%20Transport.pdf

ac 16 Ionawr (Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig)

http://senedd.assembly.wales/documents/s97207/Paper%20-%20Minister%20for%20Economy%20and%20Transport.pdf

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r manylion pellach y cytunais eu rhoi yn y cyfarfod ar 9 Ionawr, sef:

**Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig - Trefniadau'r Benthyciad**

Caiff y symiau sy'n weddill o'r benthyciad eu tynnu i lawr dros 6 mlynedd gyntaf y cytundeb, sy'n golygu y tynnir y benthyciad cyfan i lawr erbyn 31 Mawrth 2025. Mae'r ad-daliad cyntaf yn ddyledus ar 31 Mawrth 2026 a bydd y benthyciad cyfan wedi ei ad-dalu erbyn 31 Mawrth 2044.

**Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi - Enghreifftiau o Fuddsoddiadau Rhanbarthol**

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cydnabod bod economi gynaliadwy a chynhwysol sy'n tyfu yn hanfodol er mwyn sicrhau Cymru fwy ffyniannus, iach, cydnerth a mwy cydradd. Rwy'n falch o'r buddsoddiadau o ansawdd uchel yr ydym wedi eu denu er mwyn cryfhau ein heconomi a'n cymunedau mewn cyfnod eithriadol o heriol ac rwy'n rhoi rhai enghreifftiau fel y trafodwyd yn y pwyllgor i dynnu sylw at gyflawni ein dyheadau.

**Prosiectau Cronfa Her yr Economi Sylfaenol**

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn newid ein dull o weithio o un sy'n seiliedig ar sectorau i un sy'n rhoi sylw newydd i ddatblygu cymunedau cryfach a mwy cydnerth. Mae'r ffaith bod £4.5m wedi ei ddyrannu i'r Gronfa Her yn brawf o'n hymrwymiad i rannu ffyniant ac mae'n hanfodol o ran datblygu economi ranbarthol Cymru. Gallai'r cyfleoedd busnes arbrofol hefyd ddod â manteision amgylcheddol drwy leihau milltiroedd bwyd a’r costau carbon cysylltiedig.

Dyma enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus sydd wedi derbyn hyd at £100,000:

**Drive** – mae'r sefydliad nid-er-elw hwn yn datblygu prosiect cyfredol i fod yn ganolfan ar gyfer pobl gydag Awtistiaeth. Bydd y cyllid hefyd yn cynnig hyfforddiant arbenigol i nyrsys anabledd dysgu fel y gallant ddysgu am gynorthwyo pobl gydag awtistiaeth, gan gynnwys y rhai a all fod yn heriol i wasanaethau.

**Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych** - mae'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Sir Ddinbych, ac un o bartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru, wedi cael cyllid er mwyn defnyddio Neuadd y Dref Rhuthun yn hyb ar gyfer y gymuned a busnesau, a all gynnig cyfleoedd newydd i gwmnïau annibynnol a mentrau cymdeithasol. Bydd Canolfan Cydweithredol Cymru hefyd yn cynnig cymorth i fusnesau lleol newydd ac i fusnesau sy'n fentrau cymdeithasol.

**Cymdeithas Tai Rhondda -** bydd y cynllun yn adfer eiddo gwag yng nghanol tref Tonypandy gyda'r nod o adfywio'r stryd fawr.

**Môn Shellfish ym Methesda -** prosiect ar y cyd â Choleg Llandrillo Menai a Phartneriaeth Ogwen yw hwn a'i nod yw creu rhagor o farchnadoedd lleol ar gyfer pysgod cregyn.

**Lunax Digital yng Nghaerffili** - bydd y fenter hon yn datblygu Ap sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gyfnewid amser a sgiliau ac sydd â'r potensial i ddod â busnesau lleol ynghyd ar gyfer twf cynhwysol.

**Cyngor Sir Abertawe** - prosiect i helpu busnesau adeiladu bach i ymgeisio am gontractau'r awdurdod lleol - sef cam cyntaf tuag at gefnogi cyrff cyhoeddus eraill i roi rhagor o'u gwaith i fusnesau bach a chanolig.

**Nwy ac Olew Gŵyr -** cynllun a fydd yn cynnig profiad gwaith i bobl ifanc, gan dargedu unigolion sydd mewn perygl o adael y system addysg a mynd yn ddi-waith.

## Prosiectau Strategol

### Canolfan Ymchwil Deunyddiau Uwch Cymru - Brychdyn

Bydd y cyfleuster hwn, sydd o safon fyd-eang, yn sbarduno twf a swyddi yng Nglannau Dyfrdwy, ar draws Gogledd Cymru, ac yn yr ardal drawsffiniol ehangach a Phwerdy Gogledd Lloegr. Bydd yn cryfhau'r ganolfan weithgynhyrchu sefydledig hon ymhellach, a bydd yn hollbwysig o ran denu'r ymchwil, y dechnoleg a'r sgiliau diweddaraf i ranbarth y Gogledd. Mae gan y buddsoddiad o £20m y potensial i roi hwb gwerth £4 biliwn i'r economi dros yr 20 mlynedd nesaf.

### KK Fine Foods – Glannau Dyfrdwy

Cynhyrchydd bwydydd wedi eu rhewi blaenllaw yw KK Fine Foods, ac mae'n cyflogi 525 o bobl ar hyn o bryd. Bydd ein cefnogaeth gwerth £0.550m o Gronfa Dyfodol yr

Economi yn golygu y gellir bwrw ymlaen â chynllun ehangu gwerth £5.5m er mwyn arallgyfeirio a chreu 40 o swyddi newydd. Bydd hefyd yn cynnwys canolfan ymchwil a datblygu sydd â'r potensial i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyflenwyr o Gymru.

**INEOS Automotive – Pen-y-bont ar Ogwr**

Fel y soniwyd yn y pwyllgor, bydd Ineos Automotive yn datblygu ffatri gynhyrchu a chydosod newydd ym Mharc Busnes Brocastell i gynhyrchu eu cerbyd Grenadier 4x4 newydd. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cychwyn yn 2021. Disgwylir y bydd yn creu oddeutu 500 o swyddi, gan gynnig cyfleoedd i lawer o weithwyr Ford y mae penderfyniad y cwmni i ymadael â Chymru wedi effeithio arnynt. Bydd y buddsoddiad sylweddol yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i gwmnïau sy'n ehangu a buddsoddwyr newydd eraill yng Nghymru.

**Y Ganolfan Genedlaethol Manteisio ar Dechnoleg - Blaenau Gwent**

Bydd y cyfleuster ymchwil a datblygu hwn yn cael ei ddarparu gan Thales mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru. Bydd y buddsoddiad mewn canolfan seibr, gyda chymorth cyllid gwerth £10m gan Lywodraeth Cymru, yn cynorthwyo busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig ar lefel fyd-eang gan drawsnewid digidol ac yn manteisio ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ganolog i raglen y Cymoedd Technoleg. Disgwylir y bydd y bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Thales yn creu incwm sylweddol, a'r nod yw y bydd yn hunangynhaliol o fewn 5 mlynedd.

**Oxis Energy – Cynffig**

Bydd Oxis Energy yn cynhyrchu'r gell batri lithiwm sylffwr gyntaf, ac mae'n arloesi ym maes technoleg celloedd uwch ar gyfer y genhedlaeth nesaf o fatris gwefradwy er mwyn pweru bysiau a thryciau. Ei nod yw tyfu'r busnes a chreu cannoedd o swyddi newydd yn y rhanbarth dros y deng mlynedd nesaf. Caiff ei gefnogi gan fuddsoddiad ecwiti o £3.2m oddi wrth Fanc Datblygu Cymru.

**Y Canolbarth**

Rydym wedi darparu cefnogaeth i Charlies Stores a Zip-Clip er mwyn adeiladu cyfleusterau dosbarthu a chynhyrchu newydd yn ystad Buttington Cross yn y Trallwng. Yn y Drenewydd, fel y gwyddoch, mae Nidec wedi cwblhau'r broses o brynu yn ôl eu canolfan ymchwil a datblygu gwerth £4m yn ddiweddar, sef canolfan a gefnogwyd ac a adeiladwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru.

**Ken Skates AC**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Chwefror 2020**